



**Bwyd a Diod Cymru**  
**Food & Drink Wales**

# **Gwerthusiad Economaidd o Sector Bwyd a Diod Cymru – Diweddariad 2018**

**Ionawr 2019**

---

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad economaidd blynyddol y sector bwyd a diod yng Nghymru hyd at 2018. Cynhyrchwyd adroddiadau blaenorol yn 2015, 2016 a 2017.

Mae'r adroddiad hefyd yn adolygu cynnydd yn y sector ers cyhoeddi Cynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru, **'Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014–2020'**.

Gan ddefnyddio data swyddogol ac amcangyfrifon y diwydiant, mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r is-sectorau gan roi gwybodaeth am y gwahanol rannau o'r gadwyn cyflenwi bwyd a diod yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn ystyried yr is-sectorau a ganlyn:

## Y Gadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod

### 'Sector Blaenoriaeth' Bwyd a Ffermio

#### Cynhyrchu Bwyd a Diod

- Yr Is-sector Cig a Chynnyrch Cig
- Yr Is-sector Cynnyrch Becws
- Yr Is-sector Diod
- Yr Is-sector Cynnyrch Llaeth ag Wyau
- Yr Is-sector Grawn a Startsh
- Yr Is-sector Bwyd Anifeiliaid
- Yr Is-sector Ffrwythau, Llysiau a Phlanhigion
- Yr Is-sector Bwyd Môr
- Yr Is-sector Olew a Brasterau
- Yr Is-sector Cynhyrchion bwyd Eraill

#### Yr Is-sector Cyfanwerthu Bwyd a Diod

#### Yr Is-sector Adwerthu Bwyd a Diod

#### Yr Is-sector Arlwyo


Disgrifir y newidiadau rhwng yr adroddiad hwn a'r adroddiadau blaenorol yn yr atodiad, 'Nodiadau am y newidiadau yn y gwerthusiad economaidd a'r fethodoleg'

# Y Gadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod

## Crynodeb o'r Sector

Dyma'r prif ystadegau'n ymwneud â'r gadwyn cyflenwi bwyd a diod yng Nghymru:

- mae'n cynnwys cynhyrchu sylfaenol, gweithgynhyrchu, adwerthu, cyfanwerthu ac arlwyyo dibreswyl
- caiff **217,000** (2017) eu cyflogi yn y sector, sy'n llai na'r 232,000 yn 2016 – gweler y siart cylch
- mae **27,345 o unedau busnes** (2018), sy'n fwy na'r 27,215 yn 2017
- mae'n cynhyrchu **trosiant<sup>1</sup> o £20.5bn** (2018)
- y **GVA<sup>2</sup> yw £4.7bn** (2016)
- cafodd **gwerth £0.529bn o gynnyrch ei allforio (2017)** sef **cynnydd o 21%** ers 2016, pan allforiwyd gwerth £0.436bn
- £5.8bn (2017) oedd Gwerthiant Adwerthu Bwyd a Diod Cymru.



Mae'r sector yng Nghymru yn gyfrifol am:

- 16% o holl gyflogaeth Cymru
- 22% o gyfanswm unedau busnes Cymru
- 15% o drosiant economi busnes anariannol Cymru (13% oedd y cyfartaledd drwy'r DU yn 2017).
- 4% o drosiant sector bwyd a diod y DU

Busnesau micro yw'r rhan fwyaf o'r unedau busnes bwyd a diod yng Nghymru (86%), yn cyflogi llai na 10 o bobl. Mae 79 o unedau busnes yn cyflogi dros 250 o bobl.

## Crynodeb o'r ystadegau'n ymwneud â Chadwyn Cyflenwi Bwyd a Diod Cymru

	Cymru	DU (Prydain)	Cymru fel % o'r DU (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes yn 2018	27,345	442,805 (2017)	6.1% (2017)
Cyflogaeth 2017	217,000	4,173,000 (Prydain)	5.2% (Prydain)
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	41%	48% (Prydain)	–
Trosiant 2018	£20.5bn	£501.7bn (2017)	3.9% (2017)
GVA 2016	£4.7bn	£120.5bn	3.9%

Ffynhonnell: dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

1 Cyfanswm gwerthiant holl fusnesau'r gadwyn gyflenwi

2 Gwerth Ychwanegol Gros – dyma sut y mae'r Llywodraeth yn mesur perfformiad economaidd.

## Tueddiadau

Mae trosiant a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y gadwyn cyflenwi bwyd a diod wedi bod yn cynyddu dros y tymor hir. Mae GVA wedi cynyddu 40% dros y 10 mlynedd diwethaf.

Yn y tymor canolig, mae nifer yr unedau busnes wedi bod yn sefydlog, sy'n awgrymu bod y trosiant a gynhyrchwyd gan bob uned fusnes wedi codi. Mae'r ffigurau cyflogaeth yn dangos newidiadau yn y diwydiant wrth i gyflogaeth ostwng yn y sector adwerthu bwyd, a chynyddu yn y sector arlwyo.

Roedd y cynnydd sylweddol mewn cyflogaeth yn 2016 a'r gostyngiad sylweddol yn 2017 i'w briodoli'n bennaf i gynnydd mawr mewn cyflogaeth yn y sector arlwyo yn ystod 2016, a chafodd y duedd hon ei gwyrddroi'n rhannol yn 2017. Mae'r gostyngiad mewn cyflogaeth yn y sector cyfanwerthu ac adwerthu hefyd wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn.

Mae'r proffil cyflogaeth ym mhob un o'r is-sectorau'n wahanol iawn:

- Cyflogeion llawn amser yw 92% o'r rhai a gyflogir yn y sector gweithgynhyrchu
- Cyflogeion llawn amser yw 33% o'r rhai a gyflogir yn y sector cyfanwerthu ac adwerthu.
- Mae cyflogeion yn y sector amaethyddiaeth yn fwy tebygol o fod â chymhwyster lefel 4 neu uwch o'u cymharu â chyflogeion yn y sector gweithgynhyrchu.

# 'Sector Blaenoriaeth' Bwyd a Ffermio

## Crynodeb o'r Sector

Yn ôl diffiniad Llywodraeth Cymru, mae'r 'Sector Blaenoriaeth' Bwyd a Diod yn cynnwys cynhyrchu sylfaenol a gweithgynhyrchu, ac

- mae'n **cyflogi 23,000** (2017), heb gynnwys ffermwyr a gweithwyr amaethyddol, sy'n fwy na'r 20,000 yn 2016
- os yw'r holl ffermwyr a'r gweithwyr amaethyddol yn cael eu cynnwys yn y ffigur, mae **78,000 o weithwyr** (2017), sy'n fwy na'r 76,000 yn 2016
- mae **14,175 o unedau busnes lleol** (2018) sy'n fwy na'r 14,095 yn 2017
- mae'n cynhyrchu **trosiant o £6.8bn** (2018) sy'n fwy na'r £6.5bn yn 2017
- y **GVA yw £1.99bn** (2016) sy'n llai na'r £1.98bn yn 2015
- y **GVA am bob awr o waith yw £18** (2016).

Mae'r sector yng Nghymru yn gyfrifol am:

- 6% o holl gyflogaeth Cymru
- 11% o gyfanswm unedau busnes Cymru
- 5% o drosiant economi busnes anariannol Cymru (3.3% oedd y cyfartaledd drwy'r DU yn 2017).
- 5% o drosiant y sector drwy'r DU yn 2017

Mae 98% o unedau busnes y sector yng Nghymru yn cyflogi llai na 10 o bobl gan fod ffermydd yn cael eu cynnwys. Mae 25 o unedau busnes mawr yn y sector<sup>3</sup> (2018), sy'n cyflogi dros 250 o bobl, sy'n gynnydd o 19 ers 2013.

## Crynodeb o'r ystadegau'n ymwneud â Sector Blaenoriaeth Bwyd a Ffermio Cymru

	Cymru	DG (Prydain)	Cymru fel % o'r DU (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes yn 2018	14,175	160,105 (2017)	8.8% (2017)
Cyflogaeth 2017 <sup>4</sup>	78,000	879,500 (Prydain)	8.9% (Prydain)
Cyfran Cyflogaeth Lawn Amser	68%	83%	–
Trosiant 2018	£6.8bn	£137.3bn (2017)	4.7% (2017)
GVA 2016	£1.99bn	£39.6bn	5.0%
GVA am bob awr o waith	£18	£26	69%
Gweithwyr sydd â'r cymhwyster uchaf – Lefel 4 ac uwch	22%	27%	–
Buddsoddiad mewn Ymchwil a Datblygu 2013	£4m	£425m	0.9%

Ffynhonnell: dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

## Tueddiadau

Adferwyd trosiant yn 2018 ar ôl gostyngiad yn 2017. Mae'r Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) wedi cynyddu'n gyson dros y tymor hir yn Sector Blaenoriaeth Bwyd a Ffermio. Mae GVA am bob awr o waith wedi bod yn cynyddu'n gyson hefyd, gan ddangos cynnydd mewn cynhyrchiant, ond mae'n dal yn is nag ydyw yn y DU gyfan. Mae'r bwch i'w briodoli'n bennaf i lefelau cynhyrchiant mewn amaethyddiaeth. Mae cyflogaeth ychydig yn uwch nag yr oedd yn 2013 ar ôl cyrraedd penllanw yn 2014 a 2015, a hynny oherwydd bod cynifer yn cael eu cyflogi yn y sector amaethyddiaeth. Roedd hyn ar ei uchaf yn 2014, ac mae wedi bod yn gostwng ers hynny. Mae nifer y busnesau mawr a chanolig wedi dechrau codi eto.

3 Y ffigur hwn yw nifer yr unedau busnes lleol yng Nghymru sy'n cyflogi 250 o bobl neu ragor, a dyma'r diffiniad a ddefnyddir hefyd mewn adrannau eraill o'r gwerthusiad economaidd. Mewn adroddiadau blaenorol, y ffigur ar gyfer y sector blaenoriaeth oedd nifer yr unedau busnes lleol a oedd yn rhan o fentrau sy'n cyflogi 250 o bobl neu ragor yn gyffredinol.

4 Mae'r ffigurau'n awr yn cynnwys perchenogion sy'n gweithio a gweithwyr amaethyddol, sy'n cyd-fynd â'r diffiniad ar gyfer y sectorau eraill.

# Cynhyrchu Bwyd a Diod

## Crynodeb o'r Sector

Dyma'r prif ystadegau'n ymwneud â'r sector Cynhyrchu Bwyd a Diod yng Nghymru:

- mae'n cyflogi 23,000 (2017), sy'n fwy na'r 20,000 yn 2016
- mae **580 o unedau busnes** (2018), sy'n fwy na'r 570 yn 2017
- mae'n cynhyrchu **trosiant o £4.8bn** (2018), sy'n fwy na'r £4.6bn yn 2017
- y **GVA am bob awr o waith** yw o **£36** (2016)
- mae'n cynnwys **169 o enillwyr gwobrau Great Taste** (2018) sy'n fwy na'r 166 yn 2017
- mae'n cynnwys **15 o gynhyrchion sy'n rhan o'r cynllun enwau bwyd gwarchoddedig** (2018) sy'n fwy na'r 4 yn 2015.

Mae'r sector yng Nghymru yn gyfrifol am:

- 2% o holl gyflogaeth Cymru
- 0.5% o gyfanswm yr unedau busnes yng Nghymru
- 4% o drosgiant economi busnes anariannol Cymru (3% oedd y cyfartaledd drwy'r DU yn 2017).
- 4% o GVA economi busnes anariannol Cymru
- 5% o drosgiant y sector bwyd a diod yn y DU yn 2017

Mae 67% o'r unedau busnes yn y sector cynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru yn cyflogi llai na 10 o bobl. Mae 15% yn cyflogi 50 o bobl neu ragor, sy'n cynnwys 23 o unedau busnes mawr sy'n cyflogi 250 o bobl neu ragor. Mae'r lefelau sgiliau ym maes cynhyrchu bwyd yn is nag ydyw drwy'r DU.

## Crynodeb o'r ystadegau'n ymwneud â sector Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

	Cymru	DU (Prydain)	Cymru fel % o'r DU (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2018	580	12,780 (2017)	4.4% (2017)
Cyfran yr Unedau Busnes mawr neu ganolog yn 2018	15%	12%	–
Cyflogaeth 2017	23,000	409,000 (Prydain)	5.7% (Prydain)
Cyfran y swyddi llawn amser	92%	89% (Prydain)	–
Trosiant 2018	£4.8bn	£98.1bn (2017)	4.7% (2017)
GVA 2016	£1.50bn	£28.1bn	5.4%
GVA am bob awr o waith	£36	£37	97%
Gweithwyr sydd â'r cymhwyster uchaf – Lefel 4 ac uwch <sup>5</sup>	19%	29%	–
Cyflogau blynyddol canolrifol 2017 <sup>5</sup>	£19,767	£22,531	–
Buddsoddiad mewn Ymchwil a Datblygu 2013	£4m	£425m	0.9%

Ffynhonnell: dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

## Tueddiadau

Mae'r sector wedi bod yn tyfu o ran trosiant ac unedau busnes, ond mae'r twf hwnnw wedi arafu neu wedi peidio yn 2017 a 2018. Bu gostyngiad mewn cyflogaeth yn 2016, ond cododd eto yn 2017. Yn y DU, mae trosiant wedi gostwng ond mae unedau busnes wedi parhau i dyfu. Mae cynhyrchiant, a gaiff ei fesur yn ôl gwerth ychwanegol gros yr awr, wedi codi'n gyson dros y tymor hir, er iddo ostwng rhwng 2015 a 2016.

## Cyfraddau Genedigaeth a Marwolaeth Busnesau Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

Mae cyfradd genedigaeth busnesau Cymru yn y sector yn is na'r gyfradd yn y DU. Roedd 45 o fusnesau newydd yn y sector yng Nghymru yn 2016, sef cyfradd o 11%. Mae hyn yn cymharu â 1,455 yn y DU yn 2016, sef cyfradd o 15%.

Mae cyfradd marwolaeth busnesau Cymru hefyd yn is na'r gyfradd yn y DU. Daeth 55 busnes i ben yng Nghymru, sef cyfradd o 9%. Mae hyn yn cymharu â 13% yn y DU (1,205).










56% oedd cyfradd y busnesau yn y sector yng Nghymru a lwyddodd i oroesi am 5 mlynedd. Mae hyn yn cymharu â 45% yn y DU. Dim ond yn ne-ddwyrain Lloegr y mae'r gyfradd yn uwch, sef 58%.

## Dangosyddion Newid Hinsawdd Bwyd a Diod Cymru

Daw dangosyddion newid hinsawdd bwyd a diod Cymru o ffynonellau data swyddogol ar gyfer y DU gyfan. Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr gan wahanol sectorau yn cael eu cyfrifo gan gangen Cyfrifon Amgylcheddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Defnyddir yr allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr hyn i gyfrifo nwyon tŷ gwydr fesul gweithiwr drwy Brydain, a chaiff y rhain eu cymhwysu i Gymru wedyn yn ôl y nifer a gyflogir ym mhob is-sector. Mae'r canlyniadau i'w gweld isod. Maent yn dangos mai grawn a startsh sy'n cynhyrchu'r allyriadau mwyaf fesul gweithiwr, ac mai cynnyrch becws sy'n cynhyrchu'r lefelau isaf. O ran cyfanswm yr allyriadau, yr is-sector cynhyrchion eraill sydd uchaf, gyda chig a grawn a startsh yn dilyn.

### Crynodeb

Amcangyfrif o Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2016 (dangosir fel swm sy'n cyfateb i '000 tunnell o CO<sub>2</sub>)

Is-sector	Cymhareb Nwyon Tŷ Gwydr fesul gweithiwr	Cymru	Prydain
Cig 	0.014	77.8	1103.7
Bwyd Môr a Ffrwythau a Llysiau 	0.020	5.1	1010.0
Olew a brasterau 	0.050	0.0	93.8
Cynnyrch Llaeth 	0.037	35.3	817.6
Grawn a Startsh 	0.061	60.9	609.3
Becws 	0.012	55.0	1169.3
Cynhyrchion eraill 	0.016	90.2	1542.2
Bwyd Anifeiliaid 	0.025	14.8	346.2
Diodydd Alcoholig	0.047	36.0	1293.8
Diodydd Meddal a Dŵr	0.017	9.5	164.6
Cyfanswm Diodydd 		45.5	1458.4

Ffynhonnell: dadansoddiad Brookdale Consulting

Sylwch: Mae Nwyon Tŷ Gwydr fesul gweithiwr yn seiliedig ar ddsrannu allbwn Nwyon Tŷ Gwydr y DU i Brydain ar sail Unedau Busnes (2015) a rhannu cyfanswm Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Prydain yn ôl lefelau Cyflogaeth yn yr Is-sectorau yn 2015.



## Crynodeb o'r Sector

Dyma'r prif ystadegau'n ymwneud â'r sector cig a chynnyrch cig yng Nghymru:

- mae'n cyflogi **5,000 o bobl** (2017), sy'n llai na'r 6,000 yn 2016
- mae **65 o unedau busnes** (2017), tebyg i 2016
- mae'n cynhyrchu **trosiant o £0.621bn** (2018)<sup>6</sup>
- y GVA yw **£186m** (2016), sy'n llai na'r £223m yn 2015
- **yn ôl ffigurau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, allforiwyd gwerth £108m o gig gan gwmnïau o Gymru** (2017), sy'n fwy na'r £102m yn 2016. Ffrainc, Iwerddon, yr Almaen yr Iseldiroedd a Gwlad Belg oedd y 5 prif gyrchfan. Allforiwyd gwerth £40m o anifeiliaid byw yn 2017, mwy na'r £21m yn 2016. Saudi-Arabia, Hwngari, yr Iseldiroedd, yr Almaen a Gwlad Pwyl oedd y 5 prif gyrchfan (2017)
- **gwerthiant adwerthu cig Cymru yw £1.13bn** (2017)
- mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cymeradwyo 48 o safleoedd ar gyfer cig coch (51 yn 2017), 33 ar gyfer dofednod, 11 ar gyfer helgig (12 yn 2017), 12 ar gyfer helgig gwyllt (13 yn 2017)
- cynhaliodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd archwiliad o'r safleoedd ac, yn ôl y sgoriau, roedd 26% yn dda (39% yn 2017); a 68% yn gyffredinol dderbyniol (61% yn 2017)

Hon oedd yr is-sector a oedd yn cyflogi'r nifer fwyaf yn sector cynhyrchu bwyd a diod Cymru, ynghyd â chynnyrch becws a 'chynhyrchion eraill'.

- 23% o holl gyflogaeth Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 11% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

## Ystadegau Cynhyrchu ar gyfer yr Is-sector Cig a Chynnyrch Cig

	Da byw (y pen)		Nifer a laddwyd (y pen)		Cynhyrchiant (tunelledd)	
	2017	2016	2017	2016	2017	2016
Defaid	10,037,000	9,810,000	3,369,000	3,480,000	62,900	64,200
leir bwyta	3,998,000	4,339,000	-	-	-	-
Gwartheg	1,137,000	1,134,000	134,000	147,000	40,600	45,400
Moch	25,000	23,000	29,000	31,400	2,400	2,600

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru a Hybu Cig Cymru

## Crynodeb o'r Ystadegau'n ymwneud â Sector Cig a Chynnyrch Cig Cymru

	Cymru	DU (Prydain)	Cymru fel % o'r DU (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2018	65	1,530 (2017)	4.0% (2017)
Cyfran yr Unedau Busnes mawr neu ganolig (50+ o weithwyr) yn 2018	22%	21%	-
Cyflogaeth 2017	5,000	77,000 (Prydain)	6.9% (Prydain)
Cyfran y swyddi llawn amser	95%	92% (Prydain)	-
Trosiant 2018	£0.621bn	£18.18bn (2017)	5.8% (2017)
Cyfanswm y GVA 2016	£186m	£ 4,083m	4.6%
Gwerthiant adwerthu 2017 Kantar Worldpanel 2017	£1.13bn	£17.98bn	6.3%

Ffynhonnell: dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Swyddfa Ystadegau Gwladol a data Kantar

<sup>6</sup> Mae'r ffigurau trosiant wedi'u seilio ar gategori'r diwydiant o'r fenter busnes gyffredinol. Yn 2018, penderfynodd un fenter newid ei chategori ei hun. Gan ei bod wedi nodi'n flaenorol mai cig a chynnyrch cig oedd ei phrif weithgaredd, gwelwyd gostyngiad yn y ffigurau trosiant, er bod unedau busnes cynnyrch cig o fewn y fenter yn parhau i weithredu.



## Tueddiadau

Ar ôl cyfnod o gyflogaeth gynyddol, mae'r data diweddaraf yn dangos bod cyflogaeth wedi gostwng rhwng 2014 a 2017. Er gwaethaf hyn, cig a chynnyrch cig yw un o'r is-sectorau sy'n cyflogi'r nifer fwyaf yn sector cynhyrchu bwyd a diod Cymru. Mae nifer y busnesau wedi aros yn sefydlog, sef 65.

## Tueddiadau hirdymor ymhlith defnyddwyr

- Amcangyfrifir bod nifer y teuluoedd sy'n prynu cig carcass wedi gostwng yng Nghymru yn 2017. Ar gyfartaledd, prynodd pob person 165g yr wythnos dros y tair blynedd diwethaf.
- Cig eidion sy'n cael ei brynu amlaf yng Nghymru (88g), yna porc (51g) a chig oen a defaid (26g).
- Mae gwerthiant cig, ac eithrio cig carcass wedi aros yn sefydlog yng Nghymru, sef 785g dros y tair blynedd nesaf
- Prydau parod a chynnyrch cyfleus yw 186g o'r cig sy'n cael ei brynu, ac eithrio cig carcass. Mae teuluoedd Cymru yn prynu mwy fesul pen na theuluoedd Lloegr (161g).

## Cig a Chynnyrch Cig sy'n cael ei brynu gan deuluoedd

(gram fesul person bob wythnos, ar gyfartaledd dros gyfnod o dair blynedd)

	2014/17			
	Cymru	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban
Cig Carcass	165	190	235	157
Cig Eidion a Chig Llo	88	99	163	113
Cig Oen a Chig Dafad	26	36	20	10
Porc	51	55	52	33
Cig a Chynnyrch Cig ac eithrio Cig Carcass	758	749	905	814
Cig Iâr heb ei goginio	156	192	207	159
Selsig (porc)	54	54	63	48
Prydau parod a chynnyrch cig cyfleus	186	161	173	210

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Family Food

## Data Kantar

- Cyfanswm gwariant Cymru ar gig ffres oedd £366m yn y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2017, 8.8% yn uwch na'r 12 mis blaenorol. Cynyddodd gwariant pob prynwr o £202.22 y flwyddyn i £221.73, a hynny oherwydd bod pobl yn prynu mwy ac oherwydd bod prisiau cyfartalog wedi codi.
- Prynwyd £129m o gig eidion ffres mewn safleoedd adwerthu yng Nghymru yn ystod y flwyddyn hyd at Ionawr 2017, sy'n gynnydd o 6.7% o'r naill flwyddyn i'r llall; £36m o gig oen, sy'n gynnydd o 7.1% o'r naill flwyddyn i'r llall; a £44m o borc, sef cynnydd o 10.4% o'r naill flwyddyn i'r llall.
- Bu twf pendant mewn gwerthiant porc, selsig ffres a chig moch ffres yn 2017.
- Y gwariant adwerthu ar ddofednod a helgig ffres yng Nghymru oedd £178m, cynnydd o 3.4% ers y flwyddyn flaenorol.



## Crynodeb o'r Sector

Dyma rai ystadegau am y sector cynnyrch becws yng Nghymru:

- mae'n **cyflogi 6,000** (2017), sy'n fwy na'r 4,500 yn 2016
- mae **170 o unedau busnes** (2018), sy'n llai na'r 180 yn 2017
- mae'n cynhyrchu **trosiant o £507m** (2018)
- **y GVA yw £180m** (2016), sy'n llai na'r £243m yn 2015
- **gwerthiant adwerthu'r sector yng Nghymru yw £531m** (2017), a
- hon yw'r is-sector fwyaf ond un yn sector bwyd a diod Cymru o ran cyflogaeth

Mae'r sector yng Nghymru yn gyfrifol am:

- 24% o'r holl gyflogaeth yn y sector
- 30% o unedau busnes Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

## Crynodeb o'r ystadegau'n ymwneud â sector Cynnyrch Becws Cymru

	Cymru	DU (Prydain)	Cymru fel % o'r DU (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2018	170	3,845 (2017)	4.7% (2017)
Cyfran yr Unedau Busnes mawr neu ganolog (50+ o weithwyr) yn 2018	12%	9%	–
Cyflogaeth 2017	6,000	99,000 (Prydain)	5.6% (Prydain)
Cyfran y swyddi llawn amser	88%	86% (Prydain)	
Trosiant 2018	£507m	£9,681m (2017)	5.2% (2017)
Cyfanswm y GVA 2016	£180m	£4,103m	4.4%
Gwerthiant adwerthu 2017	£531m	£8,770m	6.1%

Ffynhonnell: dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a data Kantar

## Tueddiadau

Mae'r sector cynnyrch becws yn sefydlog yng Nghymru, a hynny o ran nifer y busnesau, trosiant a chyflogaeth. Fodd bynnag, nid yw trosiant na gwerth ychwanegol gros wedi cynyddu gyda chwyddiant. Drwy'r DU, fodd bynnag, gwelwyd cynnydd o 14% yn nifer y busnesau rhwng 2013 a 2017.

Unedau busnes micro yw'r rhan fwyaf ohonynt yng Nghymru (70%), ac maent yn cyflogi llai na 10 o bobl, sy'n llai na'r 74% yn 2013. 12% o unedau busnes sy'n cyflogi mwy na 50.

## Tueddiadau Defnyddwyr yn y Tymor Hir

- Mae'r dirywiad hirdymor mewn gwerthiant bara (bara gwyn yn bennaf) wedi sefydlogi. Yn gyffredinol, gwelwyd gostyngiad o 30% ers 2002/03 yn y gwerthiant.
- Nid oes digon o dystiolaeth i nodi tueddiadau o ran y cacennau, byns neu deisennau crwst, neu fisgedi a thafelli cras ers 2013.

## Bara a Chynnyrch Becws sy'n cael ei brynu gan deuluoedd (gram fesul person dros gyfnod o dair blynedd)

	2014/17			
	Cymru	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban
Bara	572	534	638	570
Cacennau, byns a theisennau toes	142	151	182	136
Bisgedi a thafelli cras	169	164	183	176

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Family Food

### Data Kantar

- At ei gilydd, roedd teuluoedd Cymru yn prynu 2.3% mwy o gynnyrch becws, sy'n groes i'r duedd drwy'r DU.
- Toes ffres/wedi'i oeri oedd y sector toes a oedd wedi tyfu fwyaf, sef 18%
- Parhau wnaeth y dirywiad yng ngwerthiant nifer o fathau gwahanol o fisgedi



## Crynodeb o'r Sector

Dyma'r prif ystadegau'n ymwneud â'r sector diod yng Nghymru:

- mae'n cynnwys cwrw, seidr, dŵr a diodydd meddal
- **roedd yn cyflogi 1,750** o bobl yn 2017, sy'n fwy na'r 1,250 yn 2016
- mae **110 o unedau busnes** (2018), sy'n fwy na'r 100 yn 2017
- mae'n cynhyrchu **trosiant o £902m** (2018), sy'n fwy na'r £837m blaenorol
- y **GVA yw £417m** (2016), sy'n fwy na'r £387m yn 2015
- **gwerthiant adwerthu'r sector yng Nghymru yw £1.17bn** (2017)
- cafodd **gwerth £29m o gynnyrch ei allforio** yn 2017, sy'n llai na £32m yn 2016. Ffrainc, yr Eidal, UDA, Sbaen ac Iwerddon oedd y 5 prif gyrchfan (2017).

Mae'r sector yng Nghymru yn gyfrifol am:

- 7.5% o holl gyflogaeth y sector Cynhyrchu Bwyd a Diod yng Nghymru
- 19% o unedau busnes y sector Cynhyrchu Bwyd a Diod yng Nghymru.

## Crynodeb o'r ystadegau'n ymwneud â sector Diod Cymru

	Cymru	DU (Prydain)	Cymru fel % o'r DU (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2016	110	2,300 (2017)	4.3% (2017)
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolog neu fawr (50+ o weithwyr)	7%	6%	–
Cyflogaeth 2017	1,750	41,000 (Prydain)	4.3% (Prydain)
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	94%	89% (Prydain)	–
Trosiant 2018	£902m	£17,545m (2017)	4.8% (2017)
Cyfanswm GVA 2016	£417m	£5,176m	8.1%
Gwerthiant Adwerthu 2016 Kantar Worldpanel 2017	£1.27bn	£19.14bn	6.1%

Ffynhonnell: dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a data Kantar

## Tueddiadau

Mae nifer y busnesau a'u trosiant yn tyfu'n gyson yn y sector. Mae nifer y busnesau micro (sy'n cyflogi llai na 10) yn y sector wedi dyblu bron, a hynny o 45 yn 2013 i 86 yn 2018. Fodd bynnag, nid yw busnesau mawr a chanolig wedi tyfu i'r un graddau - nid yw'r nifer sy'n cyflogi 50 neu ragor wedi newid.

Mae cyflogaeth yn y sector wedi bod yn ansefydlog.

Roedd allforion ar eu uchaf yn 2015, ond maent wedi dirywio i lefelau 2013 erbyn hyn.

## Tueddiadau hirdymor ymhlith defnyddwyr

- Mae'r sector dŵr mwynol neu ddŵr ffynnon wedi tyfu yng Nghymru. Rhwng 2014 a 2017, ar gyfartaledd, prynodd pob person 370ml o'r cynnyrch bob wythnos. Mae hyn ddwywaith mwy nag oedd yn cael ei brynu ar ddechrau'r mileniwm. (2001–2004)
- Yn y tymor hir, mae gwerthiant diodydd meddal wedi gostwng yng Nghymru a drwy'r DU.
- Mae gwerthiant diodydd alcohol wedi gostwng yn y DU a Chymru o'i gymharu â 2001–2004 ond mae wedi aros yn weddol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf.

## Diodydd sy'n cael eu prynu gan deuluoedd, ar gyfartaledd (ml y person bob wythnos, dros gyfnod o dair blynedd)

	2014/17			
	Cymru	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban
Dŵr mwynol a dŵr ffynnon	379	383	438	345
Diodydd meddal	1,693	1,519	1,466	1,987
Diodydd alcoholig	679	683	747	680

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Family Food

### Data Kantar

- Cynyddodd gwariant adwerthu ar alcohol yng Nghymru yn 2017.
- Gwelwyd gostyngiad bach yn y gwariant adwerthu ar de yn 2017 yng Nghymru, a chynyddodd gwariant ar ddŵr mwynol.
- Gwelwyd y cynnydd canrannol uchaf mewn gwerthiant diodydd lemwn chwerw a dŵr tonig yn 2017.



## Crynodeb o'r sector

Dyma'r prif ystadegau'n ymwneud â'r sector cynnyrch llaeth yng Nghymru:

- mae **301,000 o wartheg llaeth** yn y sector (298,000 yn 2016)
- mae'n cyflogi **1,500** o bobl mewn gwaith prosesu (2017), sy'n fwy na'r 900 yn 2016
- mae 60 o unedau busnes (2018), sy'n llai na'r 65 yn 2017
- mae'n cynhyrchu **trosiant o £451m** (2018), sy'n llai na'r £507m blaenorol
- **y GVA yw £110m** (2016), sy'n fwy na'r £82m yn 2015.

Y sectorau wyau yng Nghymru:

- defnyddiwyd **2.04m o gywion ieir** i gynhyrchu wyau yn 2017 (1.77m yn 2016)
- **cynhyrchir 443m o wyau** bob blwyddyn (2016).

Y sector cynnyrch llaeth ac wyau ar y cyd

- y **gwerthiant adwerthu yng Nghymru yw £668m** (2017)
- **cafodd gwerth £120m o gynnyrch ei allforio** (2017) **sy'n fwy na'r £89m** yn 2016. Gwlad Belg, Iwerddon, Ffrainc, yr Iseldiroedd a'r Almaen oedd y 5 prif gyrchfan (2017)
- mae'r Asiantaeth Diogelwch Bwyd wedi cymeradwyo 90 o safleoedd cynnyrch llaeth (90 yn 2017)
- mae'r Asiantaeth Diogelwch Bwyd wedi cymeradwyo 89 o safleoedd cynhyrchu wyau (87 yn 2017) ond
- nid yw hyn yn cynnwys ffermydd llaeth na gwaith prosesu ar ffermydd sy'n rhan o fusnes fferm sy'n bod eisoes.

Mae'r sector yng Nghymru yn gyfrifol am:

- 7% o holl gyflogaeth y sector Cynhyrchu Bwyd a Diod yng Nghymru
- 10% o unedau busnes y sector Cynhyrchu Bwyd a Diod yng Nghymru.

## Crynodeb o'r ystadegau'n ymwneud â Sector Cynnyrch Llaeth Cymru

	Cymru	DU (Prydain)	Cymru fel % o'r DU (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2018	60	880 (2017)	7.3% (2017)
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolog neu fawr (50+ o weithwyr)	14%	13%	–
Cyflogaeth 2017	1,500	22,000 (Prydain)	7.0% (Prydain)
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	87%	89% (Prydain)	–
Trosiant 2018	£451m	£8,965m (2017)	5.7% (2017)
Cyfanswm GVA 2016	£110m	£2,331m	4.7%
Gwerthiant Adwerthu Kantar Worldpanel 2017	£668m	£11,421m	5.9%

Ffynhonnell: dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a data Kantar

## Tueddiadau

Mae nifer yr unedau busnes yn y sector cynnyrch llaeth ac wyau wedi bod yn cynyddu dros y pum mlynedd diwethaf, ond gwelwyd gostyngiad yn 2018. Mae trosiant, gwerth ychwanegol gros a chyflogaeth wedi bod yn ansefydlog, gan ei gwneud yn anodd dehongli'r data i nodi unrhyw duedd gyffredinol.

Gwelwyd gostyngiad mewn allforion yn 2015 a 2016, ond newidiodd y duedd yn 2017 pan oedd yn uwch nag y bu am bum mlynedd.

Mae'r rhan fwyaf o'r unedau busnes yn fusnesau micro (59%), er bod 14% yn cyflogi 50 neu ragor.

Roedd nifer yr ieir dodwy wedi gostwng yn arw rhwng 2014 a 2015, o 2.1m i 1.6m ond, yn ôl ffigurau mis Mehefin diwethaf, mae'r nifer wedi dechrau codi eto.

## Tueddiadau hirdymor ymhlith defnyddwyr

- Mae llai o laeth a chynnyrch llaeth yn cael ei brynu yng Nghymru (ac eithrio caws) dros yr hirdymor, a'r gostyngiad mewn gwerthiant llaeth cyflawn sy'n bennaf cyfrifol am hyn.
- Mae mwy o laeth hanner sgim yn cael ei werthu ers dechrau'r mileniwm, o ychydig dros 900ml (2001–2004) i bron 1,100ml (2014–2017). Fodd bynnag, bu cyfnodau i ddirywiad, gan gynnwys yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## Cynnyrch llaeth sy'n cael ei brynu gan deuluoedd ar gyfartaledd

(gram fesul person bob wythnos, ar gyfartaledd dros gyfnod o dair blynedd)

	2014/17			
	Cymru	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban
Llaeth a chynnyrch llaeth (ac eithrio caws) ml	1,933	1,819	1,993	1,757
Llaeth (sgim a hanner sgim) ml	1,285	1,117	1,271	1,067
Yogwrt a fromage frais eq ml	182	195	193	189
Hufen	20	24	17	26
Menyn	40	38	50	50
Caws	104	117	93	118
Wyau (wedi'i dalygrynnu i'r wy cyfan agosaf)	2	2	2	2

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Family Food

## Data Kantar

- Y gwariant adwerthu ar gynnyrch llaeth yng Nghymru oedd £704 miliwn y flwyddyn hyd at Ionawr 2017, sef cynnydd o 6.4% ers y flwyddyn flaenorol. Roedd y farchnad gaws yn werth £157m (cynnydd o 5.7% o'r naill flwyddyn i'r llall), llaeth £193m (cynnydd o 4.5% o'r naill flwyddyn i'r llall), iogwrt £85m (dim newid) a menyn £55m (cynnydd o 24%).
- Cafodd gostyngiad o £4m yn y gwariant ar gaws y llynedd ei wrth-droi eleni, pan wariwyd £8m ar y cynnyrch hwn. Gwelwyd tuedd debyg mewn gwerthiant llaeth yn 2017 wedi iddo ostwng yn 2016. Gellir priodoli'r duedd hon i'r ffaith bod mwy yn cael ei werthu a bod y pris wedi codi.
- Gwariwyd mwy ar fenyn gan fod y pris wedi codi 24.6% ar gyfartaledd. Mewn gwirionedd, gwerthwyd llai ohono.
- Gwariwyd £48m ar wyau yn y flwyddyn hyd at Ionawr 2017, sef cynnydd o 7.7% o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol.



## Crynodeb o'r Sector

Dyma'r prif ystadegau'n ymwneud â'r sector grawn a startsh yng Nghymru:

- mae **90,100 hectar** o dir yn cael ei ddefnyddio i dyfu cnydau â'r, sy'n fwy na'r 87,700 yn 2017
- mae hyn yn cyfateb i **6%** o'r tir amaethyddol a gaiff ei ddefnyddio, o'i gymharu â 43% yn Lloegr (2018)
- **gwenith yw'r prif gnwd â'r**, sef 24% o'r cnydau â'r, yna daw haidd gwanwyn a gaeaf sydd, gyda'i gilydd, yn cyfrif am 25% o'r cnydau â'r (2017)
- **caiff 1,250 eu cyflogi yn y sector** (2017), sy'n fwy na'r 1,000 yn 2016
- mae **10 o unedau busnes (2018)**, yr un nifer ag yr oedd yn 2017
- **y gwerthiant adwerthu yw £360m** (2017)
- **y GVA yw £317m (2016)**, sy'n llai na'r £328m yn 2015
- **cafodd gwerth £67m o gynnyrch ei allforio** (2017) **sy'n fwy na'r £56m yn 2016**, ac Iwerddon, Ffrainc, Canada, Yr Emiraethau Arabaidd Unedig a Saudi Arabia oedd y 5 prif gyrchfan (2017) mae un melinydd yng Nghymru yn aelod o NABIM.

Nid oes digon o fusnesau yn y sector grawn a startsh i gynhyrchu ffigurau trosiant.

Mae'r sector yng Nghymru yn gyfrifol am:

- 5% o holl gyflogaeth sector Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 2% o unedau busnes sector Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

## Crynodeb o'r ystadegau'n ymwneud â'r is-sector Grawn a Startsh

	Cymru	DU (Prydain)	Cymru fel % o'r DU (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2018	10	225 (2017)	4.0% (2017)
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolog neu fawr (50+ o weithwyr) 2018	58%	26%	
Cyflogaeth 2017	1,250	10,500 (Prydain)	12.1% (Prydain)
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	85%	90% (Prydain)	–
Trosiant 2017	n/a	£5,996m	n/a
Cyfanswm GVA 2016	£317m	£1,547m	20.5%
Gwerthiant Adwerthu Kantar Worldpanel 2017	£360m	£6,088m	5.9%

Ffynhonnell: dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a data Kantar

## Tueddiadau

Mae mwy o dir yn cael ei ddefnyddio i dyfu cnydau'n nawr nag ers o leiaf 20 mlynedd.

Roedd y nifer a oedd yn cael eu cyflogi yn y sector yn 2018 yn uwch nag erioed o'r blaen – yn bennaf oherwydd cynnydd mewn gweithwyr rhan amser.

Mae'r Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) wedi bod yn codi dros y ddegawd, ac mae'r sector yng Nghymru yn cyfateb i 20% o GVA Prydain gyfan, er mai dim ond 4% o unedau busnes sydd yma. Mae hyn i'w briodoli, mae'n debygol, i'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r 10 busnes yng Nghymru yn cyflogi dros 50 o bobl.



## Tueddiadau hirdymor ymhlith defnyddwyr

- Roedd teuluoedd Cymru yn prynu llai o rawnfwyd brechwast ar ddechrau'r ganrif. Ers hynny, maent wedi bod yn prynu oddeutu 120g y person bob wythnos.
- Cafodd 67g o reis yn cael ei brynu fesul person bob wythnos yn 2014–2017, o'i gymharu â 54g yn 2001–2004. Fodd bynnag, ar ddechrau'r ddegawd hon, y ffigur oedd 87g y person.
- Mae gwerthiant bwydydd grawnfwyd cyfleus eraill wedi tyfu'n sylweddol yng Nghymru, gan gyrraedd 78g y person ar gyfartaledd dros yn ystod y tair blynedd diwethaf, sef cynnydd o 23% ers 2001–2004.

## Grawnfwyd a chynnyrch grawnfwyd sy'n cael ei brynu gan deuluoedd (gram fesul person bob wythnos, ar gyfartaledd dros dair blynedd)

	2014/17			
	Cymru	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban
Grawnfwyd brechwast	116	124	138	115
Reis	67	100	97	90
Pasta	79	88	84	92
Pitsa	65	82	103	91
Grawnfwydydd cyfleus eraill (gan gynnwys byrbrydau)	78	93	72	101

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Family Food

## Data Kantar

- Daeth y duedd i bobl wario llai ar rawnfwyd brechwast i ben yng Nghymru wrth i wariant gynyddu 1.4% o'r naill flwyddyn i'r llall i £97m.
- Gwelwyd cynnydd pendant yn y gwariant ar bitsas wedi'u rhewi, sef £3.7m yn 2017 (13.4%).
- Gwelwyd y cynnydd yn y gwariant ar basta ffres yn parhau, sef 14.7% yn 2017, yn dilyn cynnydd o 7.3% y flwyddyn flaenorol.
- Yn wahanol i basta ffres, gwelwyd gostyngiad yn y gwariant ar basta sych o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Eleni, fodd bynnag, mae gwariant ar basta sych wedi codi ychydig (1.4%).
- Gwelwyd gostyngiad yn y farchnad reis a nwdls sawrus yn 2016 ond, ers hynny, mae gwariant wedi cynyddu, ac wedi cyrraedd £29m.



## Crynodeb o'r sector

Dyma'r prif ystadegau'n ymwneud â'r sector bwyd anifeiliaid yng Nghymru:

- mae'r sector yn cynnwys bwyd anifeiliaid fferm, ceffylau ac anifeiliaid anwes
- mae'n cyflogi **1,000** (2017), sy'n fwy na'r 600 yn 2016
- mae **30 o unedau busnes** (2018), yr un nifer ag yr oedd yn 2016
- mae'n cynhyrchu **trosiant o £452m** (2018), sy'n llai na'r £460m yn 2017
- **y gwerthiant adwerthu yw £178m** (2016)
- **y GVA of £44m** (2016), sy'n fwy na'r £36m yn 2015
- **cafodd gwerth £28m o gynnyrch ei allforio** (2017) **sy'n fwy na'r £21m** yn 2016, (ac eithrio grawnfwyd heb ei felino) ac Iwerddon, yr Almaen, Sweden, Gwladwriaeth Tsieic a Thwrci oedd y 5 prif gyrchfan.
- Mae nifer y busnesau canolig eu maint yn debyg i'r nifer yn y flwyddyn flaenorol, ac mae 59% ohonynt yn fusnesau micro.
- Mae fau ohonynt yn aelodau o'r Pet Food Manufacturers Association.

Mae'r sector yng Nghymru yn gyfrifol am:

- 4% o holl gyflogaeth sector Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 6% o unedau busnes sector Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

## Crynodeb o'r ystadegau'n ymwneud â'r Is-sector Bwyd Anifeiliaid

	Cymru	DU (Prydain)	Cymru fel % o'r DU (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2018	30	635 (2017)	4.9% (2017)
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr) 2018	22%	16%	–
Cyflogaeth 2017	1,000	14,500 (Prydain)	6.8% (Prydain)
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	90%	86% (Prydain)	–
Trosiant 2018	£452m	£6,588m (2017)	7.1% (2017)
Cyfanswm GVA 2016	£44m	£1,835m	2.4%
Gwerthiant Adwerthu Kantar Worldpanel 2017	£178m	£2,410m	7.4%

Ffynhonnell: dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a data Kantar

## Tueddiadau

Bu cynnydd sylweddol mewn trosiant yn y sector rhwng 2014 a 2015. Ers hynny, mae trosiant wedi bod yn lleihau, ond mae'n dal yn uwch nag yr oedd yn 2014. Yn ystod y cyfnod hwnnw, nid yw nifer y busnesau wedi newid.

Ar ôl blynyddoedd o gyflogaeth gynyddol, fe'i gwelwyd yn gostwng yn sydyn yn 2016, ond ymddengys mai gostyngiad dros dro oedd hyn, a chododd eto yn 2017. Mae cyfran y cyflogeion llawn amser yn y sector wedi bod yn gostwng.

## Kantar Data

- Gwariodd teuluoedd Cymru gyfanswm o £178m ar fwyd anifeiliaid yn ystod y flwyddyn hyd at Ionawr 2017, sef cynnydd o 2.5% o'r naill flwyddyn i'r llall.
- Bu gostyngiad arall ar wariant ar fwyd sych i anifeiliaid, sef £11m (gostyngiad o 12.8%) ar ôl gostwng 12.1% y flwyddyn flaenorol. Er y bu cynnydd o 10.7% yn y pris cyfartalog, prynwyd 21.2% yn llai.
- Gwariwyd £92 ar fwyd cath, sef cynnydd o £6m.



## Crynodeb o'r sector

Ys Is-sector Ffrwythau, Llysiau a Phlanhigion

- mae **1,702 hectar** o dir yn cael ei ddefnyddio gan y sector (1,628 yn 2016)
- caiff **300 eu cyflogi** mewn gwaith prosesu (200 yn 2016)
- mae **25 o unedau busnes** (2018), tebyg i'r 30 yn 2017
- mae'n cynhyrchu **trosiant o £26m** (2018), sy'n fwy na'r £23m yn 2017
- **y GVA yw £3m** (2016), sy'n llai na'r £14m blaenorol
- **y gwerthiant adwerthu yw £892m** (2017)
- **cafodd gwerth £8m o gynnyrch ei allforio** (2017), sy'n fwy na'r £7m yn 2016, ac lwerddon, yr Almaen, Ffrainc, yr Iseldiroedd a Japan oedd y 5 prif gyrchfan
- nid yw hyn yn cynnwys cynnyrch sylfaenol na gwaith prosesu ar ffermydd,
- nid yw data'r cyfrifiad yn cynnwys unedau bach o lai na 2 hectar.
- Mae Garddwriaeth Cymru wedi amcangyfrif nad yw hyd at 70% o waith garddwriaeth yn cael ei gynnwys yn y data.

Mae'r sector yng Nghymru yn gyfrifol am:

- 1% o holl gyflogaeth sector Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 4% o unedau busnes sector Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

## Crynodeb o'r ystadegau'n ymwneud â'r Is-sector Prosesu Ffrwythau a Llysiau

	Cymru	DU (Prydain)	Cymru fel % o'r DU (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2018	25	730 (2017)	3.8% (2017)
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolog neu fawr (50+ o weithwyr) 2018	8%	15%	–
Cyflogaeth 2017	300	31,500 (Prydain)	0.9% (Prydain)
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	93%	92% (Prydain)	–
Trosiant 2018	£26m	£6,674m (2017)	0.3% (2017)
Cyfanswm GVA 2016	£3m	£2,089m	0.1%
Gwerthiant Adwerthu Kantar Worldpanel 2017	£892m	£15,420m	5.8%

Ffynhonnell: dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a data Kantar

## Tueddiadau

Mae mwy o dir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer garddwriaeth nag unrhyw adeg ers 2000.

Mae cyflogaeth wedi cynyddu'n sylweddol i 300 ar ôl cyfnod o sefydlogrwydd dros y pedair blynedd diwethaf pan gyflogwyd 200.

## Tueddiadau hirdymor ymhlith defnyddwyr

- Ar ôl gostyngiad ers canol y ddegawd flaenorol, mae nifer y ffrwythau a'r llysiau a gaiff eu prynu fesul pen wedi sefydlogi yng Nghymru.
- Mae'r gostyngiad mewn gwerthiant tatws (yn enwedig tatws ffres) wedi parhau.

## Ffrwythau a llysiau sy'n cael eu prynu ar gyfartaledd gan deuluoedd (gram fesul person bob wythnos, ar gyfartaledd dros dair blynedd)

	2014/17			
	Cymru	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban
Llysiau Ffres ac wedi'u Prosesu (ac eithrio Tatws)	1,001	1,133	907	963
Tatws Ffres ac wedi'u Prosesu	664	646	1,112	627
Ffrwythau Ffres ac wedi'u Prosesu	982	1,118	992	1,047

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Family Food

### Kantar Data

- Bu cynnydd yn y ffrwythau a llysiau a brynwyd fesul pen, ac eithrio cnau. Bu cynnydd o 7.1% yng nghyfanswm y gwariant.
- £305m oedd y gwariant adwerthu ar llysiau ffres, sef cynnydd o 5.9% o'r naill flwyddyn i'r llall.
- Bu cynnydd o 9%, sef £318m yn y gwariant ar ffrwythau ffres, a chynnydd o ran faint a werthwyd, pa mor aml y cawsant eu prynu ac o ran pris pob uned o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol eto.
- Bu cynnydd pendant yn y gwariant ar llysiau tun a llysiau wedi'u rhewi, yn ogystal â ffrwythau tun.



## Crynodeb o'r sector

Dyma'r prif ystadegau'n ymwneud â'r sector bwyd môr yng Nghymru:

- mae fflyd o 450 o gychod, gyda 33 ohonynt dros 10m o hyd (451 cwch a 32 >10m yn 2016) yn y sector
- mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cymeradwyo 61 o safleoedd (2018)
- **y gwerthiant adwerthu yw £155m** (2017)
- mae'r sector **yn allforio £32m o gynnyrch** (2017) sy'n fwy na'r £27m yn 2016 ai Sbaen, De Corea, yr Iseldiroedd, Ffrainc a Tsieina oedd y 5 prif gyrchfan
- y **GVA yw £3m**
- yn ôl data swyddogol, mae **75 yn cael eu cyflogi** mewn gwaith prosesu mewn **10 o unedau busnes** (2017). Nid oes digon o unedau busnes swyddogol i gynhyrchu data trosiant.
- Ond os nad oes gan fusnes staff, ac os yw ei drosiant islaw'r trothwy treth, nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr ystadegau hyn. Mae'r diwydiant yn amcangyfrif bod o leiaf **65 busnes prosesu bach eraill** yng Nghymru sydd â llai na 10 o weithwyr (2015). Mae llawer o fwyd môr Cymru yn cael ei allforio heb ei brosesu.

Mae'r sector yng Nghymru yn gyfrifol am:

- 0.3% o holl gyflogaeth sector Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 2% o unedau busnes sector Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

## Crynodeb o'r ystadegau'n ymwneud â Sector Prosesu Bwyd Môr Cymru

	Cymru	DU (Prydain)	Cymru fel % o'r DU (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2018	10	370 (2017)	3.0% (2017)
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr) 2018	0%	18%	–
Cyflogaeth 2017	75	16,000 (Prydain)	0.5% (Prydain)
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	82%	87% (Prydain)	–
Trosiant 2017	n/a	£2,729m	n/a
Cyfanswm GVA 2016	£3m	£758m	0.4%
Gwerthiant Adwerthu Kantar Worldpanel 2017	£155m	£2,813m	5.5%

Ffynhonnell: dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a data Kantar

## Tueddiadau

Ar ôl gostwng yn 2016, mae'r nifer sy'n cael eu cyflogi yn y sector yn awr wedi codi eto i lefelau 2014.

Ychydig o fusnesau sydd wedi'u cofnodi. O'r rhai sydd wedi'u cofnodi, mae 67% yn fusnesau micro, ac yn cyflogi llai na 10, ac maent i gyd yn cyflogi llai na 50.

## Tueddiadau hirdymor ymhlith defnyddwyr

- Yn 2016–17, roedd arwyddion bod y dirywiad hirdymor mewn gwerthiant pysgod fesul person ar gyfartaledd yng Nghymru wedi sefydlogi. Yn 2014–17, prynodd teuluoedd 26% llai o bysgod nag yn 2001–2004.
- Mae'r pysgod cregyn a gaiff eu bwyta yng Nghymru wedi gostwng o 8g i 5g y person bob wythnos.

## Pysgod sy'n cael eu prynu ar gyfartaledd gan deuluoedd (gram fesul person bob wythnos, ar gyfartaledd dros dair blynedd)

	2014/17			
	Cymru	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban
Pysgod	115	145	125	131
Pysgod cregyn	5	10	7	10

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Family Food

### Data Kantar

- Gwariwyd £11.2m ar bysgod cregyn, sef cynnydd o 9.8% ers 2016. Gwariwyd £46.9m ar bysgod gwlyb/wedi'u mygu, sef cynnydd o 6.1%. Gwariwyd £14.0m ar bysgod oer, wedi'u paratoi, sef cynnydd o 4.6%.
- Mae gwerthiant pysgod wedi'u rhewi wedi tyfu'n sylweddol. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2017, gwariwyd £53m ar y cynnyrch hwn, sef cynnydd o 11.7%. Gwelwyd gwerthiant pysgod tun yn sefydlogi ar ôl gostwng 8.7% y flwyddyn flaenorol.



## Crynodeb o'r sector

Mae'r sector yn rhy fach i gynhyrchu unrhyw ddata am fusnesau neu gyflogaeth

Cafodd gwerth £2.5m (2017) o gynnyrch ei allforio, sy'n fwy na'r £2.0m yn 2016, ac Iwerddon, Gwlad Pwyl, yr Iseldiroedd, Sri Lanka a'r Almaen oedd y 5 prif gyrchfan.

## Tueddiadau hirdymor ymhlith defnyddwyr

- Mae'r dirywiad hirdymor yn y brasterau sy'n cael ei fwyta'n parhau i raddau helaeth ac, ar gyfartaledd dros dair blynedd, mae draean yn is yng Nghymru o'i gymharu â 2001–2004.
- Mae mwy o fenyn yn cael ei fwyta. Roedd pob person yn bwyta 35g y wythnos ar gyfartaledd yn 2012–14, a 40g yn 2014–2017.
- Cynyddodd gwerthiant margarin hyd at ddiwedd y ddegawd, ond mae'n ymddangos ei fod wedi gostwng ers hynny.
- Mae olew llysiau a salad wedi gostwng eto yng Nghymru.

## Olew a brasterau sy'n cael eu prynu ar gyfartaledd gan deuluoedd (gram fesul person bob wythnos, ar gyfartaledd dros dair blynedd)

	2014/17			
	Cymru	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban
Brasterau	144	154	155	145
Menyn	40	38	50	50
Margarin	25	21	13	16
Olew llysiau a salad	37	53	52	39

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Family Food

## Data Kantar

- Gwariwyd £34m ar fargarin, sef cynnydd o 2.0% ar ôl gostwng 9.0% yn 2016. Roedd y cynnydd i'w briodoli i gynnydd bach yn y pris, ac nid oedd fawr o wahaniaeth mewn faint o fargarin gafodd ei werthu.
- Ar y llaw arall, gwariwyd £55m ar fenyn (wedi'i gofnodi o dan gynnyrch llaeth), sef cynnydd o 24% ers 2016.
- Gwariwyd £20.3m ar olew coginio, sef cynnydd o 13.2% o'r naill flwyddyn i'r llall.



## Crynodeb o'r sector

Mae'r sector yn cynnwys busnesau yn y meysydd cynhyrchu a ganlyn: siwgr, coco, siocled, melysion, te, coffi, a chynnyrch i'w ddefnyddio yn lle coffi, pupur a halen a sesnin, prydau a seigiau parod, a pharatoi bwyd homogenaidd a bwyd dietegol.

Dyma'r prif ystadegau'n ymwneud â'r sector cynhyrchion eraill yng Nghymru:

- mae'n cyflogi **7,000 o bobl** (2017), sy'n fwy na'r 6,000 yn 2016
- mae **100 o unedau busnes** (2018), sy'n fwy na'r 85 yn 2017
- mae'n cynhyrchu **trosiant o £1.42bn** (2018), sy'n fwy na'r £820m yn flaenorol
- **y gwerthiant adwerthu yw £631m** (2017)
- **y GVA yw £242m** (2016), sy'n llai na'r £264m yn 2015
- cafodd **gwerth £94m o gynnyrch ei allforio** (2017), **sy'n fwy na'r £79m** yn 2016, ac lwerddon, yr Almaen, UDA, Ffrainc a'r Iseldiroedd oedd y 5 prif gyrchfan.

Er mai busnesau bach yw'r rhan fwyaf ohonynt, mae 21% yn cyflogi dros 50, ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r sector yng Nghymru yn gyfrifol am:

- 28% o holl gyflogaeth sector Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 17% o unedau busnes sector Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

## Crynodeb o'r ystadegau'n ymwneud ag Is-sector Cynhyrchion Eraill Cymru

	Cymru	DU (Prydain)	Cymru fel % o'r DU (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2018	100	2,195 (2017)	3.8% (2017)
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr) 2018	21%	15%	–
Cyflogaeth 2017	7,000	95,500 (Prydain)	6.8% (Prydain)
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	95%	90% (Prydain)	–
Trosiant 2018	£1.42bn	£20.68bn (2017)	4.0% (2017)
Cyfanswm GVA 2016	£242m	£6,032m	4.0%
Gwerthiant Adwerthu Kantar Worldpanel 2017	£631m	£10,381m	6.1%

Ffynhonnell: dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a data Kantar

## Tueddiadau

Yn 2017, cododd y nifer a gyflogwyd yn y sector i 7,000 eto ar ôl gostwng y flwyddyn flaenorol. Mae'r rhan fwyaf o'r cyflogeion (95%) yn llawn amser, sy'n fwy na'r ffigur cyfatebol ar gyfer Prydain, sef 90%.

Er ei bod yn anodd gweld tueddiadau hirdymor o ran cyflogaeth, mae trosiant a gwerth ychwanegol gros wedi bod yn cynyddu, er y bu rhywfaint o ansefydlogrwydd. Hefyd, mae allforion yn y sector wedi cynyddu'n gyflym. Yn 2017, roedd allforion 19% yn uwch nag yr oeddent yn 2016.

## Long Term Consumer Trends

- Mae tystiolaeth bod y gostyngiad mewn gwerthiant siwgr a chyffeithiau yn parhau. Er gwaethaf rhai arwyddion bod gwerthiant yn cynyddu yn 2015–16, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn 2016–17.
- Mae gwerthiant melysion wedi aros yn sefydlog.
- Mae gwerthiant picls a sawsiau wedi bod yn gostwng ers dechrau'r ddegawd.



## Y Cynhyrchion Eraill sy'n cael eu prynu gan deuluoedd ar gyfartaledd (gram fesul person bob wythnos, ar gyfartaledd dros dair blynedd)

	2014/17			
	Cymru	Lloegr	Gogledd Iwerddon	Yr Alban
Siwgr a chyffeithiau	105	108	96	99
Picls a sawsiau	119	127	117	124
Melysion	138	127	153	159

Ffynhonnell: DEFRA, Ystadegau Family Food

### Data Kantar

- Y gwariant adwerthu ar gyffeithiau yng Nghymru oedd £10.1m yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2017, sef gostyngiad o 1.9%.
- Bu cynnydd o 2.5% yng nghyfanswm y gwariant ar bicls, sbeisys a chonfennau, sef £52m.
- Bu cynnydd o 6.0% yng nghyfanswm y gwariant ar felysion siocled, sef £177m. Gwariwyd £48 ar felysion siwgr, sef cynnydd o 10% ers 2016.
- Bu cynnydd o 3.8% yng nghyfanswm y gwariant ar gynnyrch coginio cartref melys, sef £82m, ond roedd yn dal yn is yn gyffredinol o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol.



## Crynodeb o'r sector

The Food and Drink Wholesale sub sector in Wales includes tobacco and:

- mae'n cyflogi **8,000 o bobl** (2017), sy'n llai na'r 11,000 yn 2016
- mae **760 o unedau busnes** (2018), tebyg i'r 770 yn 2017
- mae'n cynhyrchu **trosiant o £1.90bn** (2018), sy'n fwy na'r 1.81bn yn 2017
- **y GVA yw £323m** (2016), sy'n llai na'r £375m yn 2015.

Mae'r sector yng Nghymru yn gyfrifol am:

- 0.6% o holl gyflogaeth sector Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru
- 0.6% o unedau busnes sector Cynhyrchu Bwyd a Diod Cymru

## Crynodeb o'r ystadegau'n ymwneud ag Is-sector Cyfanwerthu Bwyd a Diod Cymru

	Cymru	DU (Prydain)	Cymru fel % o'r DU (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2018	760	21,730 (2017)	3.5% (2017)
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr) 2018	3%	5%	–
Cyflogaeth 2017	8,000	247,000 (Prydain)	3.1% (Prydain)
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	73%	86% (Prydain)	–
Trosiant 2018	£1.90bn	£112.19bn (2017)	1.6% (2017)
Cyfanswm GVA 2016	£323m	£18,053m	1.8%

Ffynhonnell: dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a data Kantar

## Tueddiadau

Mae'r sector cyfanwerthu yng Nghymru wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf, yn groes i'r duedd drwy'r DU gyfan. Bu gostyngiad o 13% yn y trosiant rhwng 2014 a 2018 ac, yn ystod yr un cyfnod, bu gostyngiad o 5% yn nifer yr unedau busnes. Roedd GVA 2016 islaw lefelau 2006, hyd yn oed cyn ei addasu ar gyfer chwyddiant.

Ymddengys nad yw'r gostyngiad yn y trosiant a nifer yr unedau busnes wedi effeithio ar gyflogaeth. Roedd 8,000 yn cael eu cyflogi yn y sector yn 2017, o'i gymharu â 7,000 yn 2014. Roedd cyfran is yn cael eu cyflogi'n llawn amser fodd bynnag, sef 73% yn 2018, o'i gymharu ag 83% yn 2014.



## Crynodeb o'r sector

Dyma rai ystadegau am yr is-sector Adwerthu Bwyd a Diod yng Nghymru:

- mae'n cyflogi **57,000, yn rhan amser yn bennaf** (2017), sy'n llai na'r 60,000 yn 2016
- mae **3,980 o unedau busnes** (2018), sy'n llai na'r 4,045 yn 2017
- mae'n cynhyrchu **trosiant o £8.79bn** (2018), sy'n fwy na'r £8.75bn yn 2017
- **y GVA yw £1.37bn** (2016), tebyg i'r £1.38bn yn 2015
- **y gwerthiant adwerthu yw £5.77bn** (Kantar 2017).

Mae'r sector yng Nghymru yn gyfrifol am:

- 5% o'r holl unedau busnes yng nghadwyn gyflenwi bwyd a diod Cymru.
- 4% o'r holl gyflogaeth yng Nghymru.

## Summary Statistics for Retail Sector

	Cymru	DU (Prydain)	Cymru fel % o'r DU (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2018	3,980	88,285 (2017)	4.6% (2017)
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolig neu fawr (50+ o weithwyr) 2018	4%	4%	–
Cyflogaeth 2017	57,000	1,238,000 (Prydain)	4.6% (Prydain)
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	28%	34% (Prydain)	–
Trosiant 2018	£8.78bn	£179.49bn (2017)	4.9% (2017)
Cyfanswm GVA 2016	£1,371m	£28,464m	4.8%
Gwerthiant Adwerthu (2017) Kantar Worldpanel 2017	£5,773m	£95,326m	6.1%











Ffynhonnell: dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a data Kantar

## Tueddiadau

Mae cyflogaeth wedi gostwng o'r naill flwyddyn i'r llall, o 71,000 yn 2013 i 57,000 yn 2017. Mae cyfran y cyflogeion llawn amser hefyd wedi gostwng yn ystod y cyfnod hwn.

Mae gwerthiant adwerthu'n ôl pob is-sector, yn nhrefn eu gwerth yng Nghymru, wedi'u crynhoi yn y tabl isod ar gyfer 2016-2017:

## Cyfanswm gwerthiant adwerthu yng Nghymru 2016–2017 (£m)

		2016	2017	% Y newid rhwng 2016 a 2017 (%)
Diodydd		1,062	1,175	+10.6
Cig a chynnyrch cig		1,055	1,126	+6.7
Ffrwythau a llysiau		833	892	+7.1
Cynnyrch llaeth		626	668	+6.7
Cynnyrch becws		509	531	+4.3
Grawnfwydydd		344	360	+4.9
Bwyd anifeiliaid		174	178	+2.5
Bwyd môr		145	155	+7.1
Olew a brasterau		53	57	+6.0
Cynhyrchion eraill		596	631	+5.7
<b>Cyfanswm</b>		<b>5,397</b>	<b>5,773</b>	<b>+7.0</b>

Ffynhonnell: Kantar Worldpanel



## Crynodeb o'r sector

Mae is-sector Arlwyo yn cynnwys arlwyo dibreswyl, gan gynnwys bwytai a chaffis, gwasanaethau bwyd, arlwywyr symudol, bwyd parod, ac arlwyo mewn digwyddiadau.

Dyma rai ystadegau am yr is-sector arlwyo yng Nghymru:

- mae'n cyflogi **74,000 o bobl, yn rhan amser yn bennaf** (2017), sy'n llai na'r 86,000 yn 2016
- mae **8,430 o unedau busnes** (2018), sy'n llai na'r 8,310 yn 2017
- mae'n **cynhyrchu trosiant o £2.94bn** (2018), sy'n llai na'r 2.65bn yn (2017)
- **y GVA yw £1.05bn** (2016), sy'n llai na'r £1.13bn yn (2015)
- amcangyfrifir mai'r gwariant blynyddol ar fwyta allan yw **£30.70** fesul teulu bob wythnos (2014–2018).

Busnesau micro yw'r rhan fwyaf yn y sector, yn cyflogi llai na 10. Dim ond 2% o'r unedau busnes sy'n cyflogi 50 neu ragor.

Mae'r sector yng Nghymru yn gyfrifol am:

- 6% o holl gyflogaeth Cymru
- 31% o unedau busnes cadwyn cyflenwi bwyd a diod Cymru.

## Crynodeb o'r ystadegau ar gyfer ys Is-sector Arlwyo

	Cymru	DU (Prydain)	Cymru fel % o'r DU (Prydain)
Nifer yr Unedau Busnes 2018	8,430	172,685 (2017)	4.8% (2017)
Cyfran yr Unedau Busnes sy'n ganolog neu fawr (50+ o weithwyr) 2018	2%	2%	–
Cyflogaeth 2017	74,000	1,808,500 (Prydain)	4.1% (Prydain)
Cyfran y Swyddi Llawn Amser	34%	39% (Prydain)	–
Trosiant 2018	£2.94bn	£72.72bn (2017)	3.6% (2017)
Cyfanswm GVA 2016	£1.05bn	£34.34bn	3.1%

Ffynhonnell: dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

## Tueddiadau

Mae sector arlwyo yng Nghymru wedi tyfu'n gyffredinol o ran trosiant, cyflogaeth ac unedau busnes.

Mae cyflogaeth yn llai nag yr oedd yn y flwyddyn flaenorol, ond roedd wedi cynyddu'n eithriadol yn 2016. Roedd cyflogaeth yn 2017 yn rhan o gyfnod o dwf, o 69,000 yn 2013, i 71,000 yn 2015 ac 74,000 yn 2017.

Roedd nifer y busnesau arlwyo a oedd yn cyflogi 250 neu ragor wedi cynyddu o 2 yn 2013 i 6 yn 2018.

Mae teuluoedd drwy'r DU yn gwario mwy na theuluoedd Cymru ar 'Fwyta allan', ac yn gwario £36.70 yr un bob wythnos ar gyfartaledd, o'i gymharu â £30.70.

# Atodiad: Nodiadau am y newidiadau yn y gwerthusiad economaidd a'r fethodoleg

Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r gwerthusiad economaidd gael ei gynhyrchu'n fewnol gan Lywodraeth Cymru. Brookdale Consulting oedd yn gyfrifol am gynhyrchu'r adroddiadau blaenorol.

Mae rhywfaint o newidiadau yn y fethodoleg a ddefnyddiwyd i baratoi'r ffigurau hyn. Mewn rhai meysydd, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu cael gafael ar ffynonellau data mwy priodol na fyddent ar gael i gwmni allanol. Mewn meysydd eraill, mae'r fethodoleg wedi newid i gyd-fynd ag adroddiadau ystadegol eraill Llywodraeth Cymru, er enghraifft **ystadegau'r Sectorau Blaenoriaeth**.

## Newidiadau

Mae'r unedau busnes wedi'i diweddaru i gynnwys ffigurau 2017 a 2018 ar gyfer Cymru, oherwydd y data sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

Caiff ffigurau cyflogaeth Cymru eu cyfrifo drwy ddefnyddio microdata'r Gofrestr Busnes a'r Arolwg Cyflogaeth (BRES). Mae hyn yn dileu'r camgymeriadau sy'n codi wrth dalgrynnu cyfansymiau.

Caiff Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) ei gyfrifo'n uniongyrchol drwy ddefnyddio data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyn hyn, byddai'n cael ei gyfrifo ar gyfer rhai sectorau ar sail cyflogaeth a throsiant. Nid yw Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) fesul pen wedi'i gynnwys eleni. Nid yw'r ffigurau cyflogaeth yn dangos y ffigurau llawn amser cyfatebol a fyddai'n arwain at GVA is fesul pen mewn diwydiannau sy'n cyflogi canran uchel o gyflogeion rhan amser.

Mae gwariant teuluoedd yn cael ei nodi ar sail y cyfartaledd dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r sampl ar gyfer Cymru yn yr arolwg Costau Byw a Bwyd yn fach, sy'n golygu ei bod yn haws gwneud camgymeriad wrth gyfrifo'r amcangyfrif blynyddol.

Mae rhai eitemau yn data adwerthu Kantar wedi'u hailgategoreiddio. Mae "stoc cig", "dofednod wedi'i brosesu a'i rewi" a "phrydau parod wedi'u rhewi" yn awr wedi'u cynnwys yn y categori "Cig a Chynnyrch Cig". Mae "Briwigig (melys)", "Olifau oer" a "Chynnyrch tatws wedi'u rhewi" yn awr wedi'u cynnwys yn y categori "Ffrwythau, llysiau a phlanhigion". Mae "Lard+chfansoddion" a "Margarin" yn awr wedi'u cynnwys yn y categori "Olew a Brasterau", i gyd-fynd â diffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Ddosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2007.

## Nodiadau eraill ar fethodoleg

### Bandiau unedau busnes/maint busnesau – Cofrestr Busnes Rhyngadrannol (IDBR)

Business units here are local units – one physical location of a business. A business enterprise can be made up of many local units. Small businesses with no employees and turnover below the VAT threshold are not included.

### Cyflogaeth/cyflogaeth llawn amser – y Gofrestr Busnes a'r Arolwg Cyflogaeth (BRES)

Caiff y rhain eu hamcangyfrif ar sail data'r arolwg. Mae data amaethyddiaeth fferm wedi'u cynnwys ar sail Arolwg Amaethyddiaeth mis Mehefin. Caiff cyflogaeth ei ddiffinio fel y cyflogeion ac unrhyw berchennog sy'n gweithio am gyflog neu ran o'r elw. Cyfansymiau ar gyfer Prydain yw'r rhain gan fod Gogledd Iwerddon yn cynnal ei harolwg ei hun.

### Allforion – ystadegau Masnach Ranbarthol mewn Nwyddau CThEM

Caiff ystadegau allforion eu creu drwy ddefnyddio dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata CThEM.

### Safleoedd y mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi'u cymeradwyo / sgoriau archwilio – ystadegau'r Asiantaeth Safonau Bwyd

Ffigurau'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel ar 1 Tachwedd 2018.

### GVA – Gwerth Ychwanegol Gros

Mae'r GVA yn cyfuno ystadegau GVA o'r Arolwg Busnes a'r Cyfrifon Rhanbarthol.

### **Y Cymhwyster Uchaf ar lefel 4 neu uwch – Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS)**

Mae'r cymwysterau'n seiliedig ar y boblogaeth 16-64 oed sy'n gweithio, sy'n cyfateb i'r diffiniadau a ddefnyddir yn adroddiad ystadegau economaidd y Sectorau Blaenoriaeth.

### **Cynnyrch a brynwyd gan deuluoedd ar gyfartaledd – Arolwg Costau Byw a Bwyd drwy ystadegau Family Food DEFRA**

Amcangyfrifon seiliedig ar ddata'r arolwg. Mae'n debyg bod pobl yn dweud eu bod yn prynu llai o ambell gynnyrch nad y maent mewn gwirionedd (ee alcohol).

### **Gwerthiant adwerthu – Kantar Worldpanel**

Ystadegau adwerthu seiliedig ar ddata panel adwerthu Kantar.

### **Trosiant – Cofrestr Busnes Rhyngadrannaol (IDBR)**

Dyma'r trosiant a gynhrychir yng Nghymru gan fentrau, waeth lle mae eu pencadlys. Mae menter yn cael ei chynnwys fel rhan o sector os yw ei phrif ddiwydiant yng Nghymru yn rhan o'r sector honno. Nid yw busnesau bach nad ydynt yn cyflogi neb, ac sydd â throsiant sy'n is na'r trothwy TAW wedi'u cynnwys.

## **Ymwadiad**

Paratowyd y crynodeb hwn o ystadegau rhwng mis Hydref a mis Ionawr 2019. Nid yw'n adroddiad ystadegol swyddogol.

Er bod y ffeithiau wedi'u gwirio'n drwyadl, ni all Llywodraeth Cymru gymryd cyfrifoldeb dros unrhyw niwed neu golled a all godi o ganlyniad i unrhyw gamgymeriad anfwriadol yn yr adroddiad hwn.